DAVIES, JOHN OSSIAN (1851 - 1916), gweinidog gyda'r Annibynwyr ac awdur

Enw: John Ossian Davies
Dyddiad geni: 1851
Dyddiad marw: 1916
Rhiant: Phoebe Davies
Rhiant: Daniel Davies
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Annibynwyr ac awdur
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Thomas Mardy Rees

Ganwyd yn Pendre, Aberteifi, 10 Tachwedd 1851, yn fab i Daniel a Phoebe Davies. Dechreuodd fel argraffydd a newyddiadurwr, bu'n golygu *Y Fellten* ym Merthyr Tydfil, a daeth yn ysgrifennydd Cymdeithas Ddirwestol De Cymru. Dechreuodd bregethu ym Merthyr Tydfil ac aeth i Goleg Coffa Aberhonddu (1873). Cafodd ei wahodd i ddilyn William Rees ('Gwilym Hiraethog') yn Lerpwl, eithr dewisodd dderbyn galwad i'r Tabernacl (Cymraeg), Llanelli, 1876. Symudodd yn 1880 i Herbert Place (Saesneg), Abertawe; oddi yno aeth i Tollington Park, Llundain (1883). Yn 1888 aeth i Bournemouth, a thra y bu yno codwyd capel mawr Richmond Hill. Dychwelodd i Lundain yn 1897 i fod yn weinidog Paddington Chapel. Cyhoeddodd bregethau o dan y teitlau - *Old yet ever new*, 1904, a *The Dayspring from on High*, 1907. Bu farw 24 Medi 1916, yn Shortlands, Kent.

Awdur

Y Parchedig Thomas Mardy Rees, (1871 - 1953)

Ffynonellau

Album Aberhonddu â€¦ o'r flwyddyn 1755 hyd 1880 (1898), 281

The Congregational Year Book, 1917

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 305029536

Wikidata: Q20733579

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Rees, T. M., (1953). DAVIES, JOHN OSSIAN (1851 - 1916), gweinidog gyda'r Annibynwyr ac awdur. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 12 Hyd 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-DAVI-OSS-1851

Copïo'r cliptrwydd

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATIO

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government